**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

27 Ebrill 2022

Annwyl Peredur,

Diolch am ddod i gyfarfod cyntaf y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb (BIIAG) ar 30 Mawrth 2022 ac am eich llythyr dyddiedig 4 Ebrill 2022.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella ein prosesau cyllidebol a threth fel y nodir yn ein Cynllun Gwella'r Gyllideb. Croesawaf y ffaith eich bod yn agored i gydweithio rhwng Llywodraeth Cymru, BIIAG a'r Pwyllgor Cyllid er mwyn dod o hyd i ffyrdd o gryfhau ymgysylltu â'r gyllideb ac i archwilio sut y gallwn weithio gyda'n gilydd ar y diwygiadau pwysig hyn.

Rwy'n falch y byddwch yn cynnal sesiwn friffio dechnegol ar y Cynllun Gwella'r Gyllideb. Mae'r clercod wedi bod mewn cysylltiad â'm swyddogion ac wedi awgrymu cynnal y sesiwn friffio fore 18 Mai 2022. Bydd swyddogion yn cysylltu â'r clercod i drafod y strwythur a'r agenda i gefnogi'r drafodaeth hon yn y ffordd orau.

O ran eich sylwadau ynglŷn â phroses y gyllideb, edrychaf ymlaen at glywed barn y Pwyllgor am y protocol presennol a chroesawaf drafodaeth barhaus ynghylch sut y gallwn barhau i wella ymgysylltiad, tryloywder a chraffu ar faterion yn ymwneud â'r gyllideb, cyllid a threth. Fel y gwyddoch, o ran symud at broses cyllideb ddeddfwriaethol, fy marn i yw nad yw manteision gwneud newid o'r fath wedi'u dangos. Serch hynny, rwy'n cydnabod diddordeb y Pwyllgor yn y mater hwn ac rwyf wedi gofyn i'm swyddogion archwilio hyn ymhellach gyda'ch swyddogion, gan gynnwys y potensial ar gyfer adolygiad annibynnol.

O ran eich pwynt ynglŷn â Bil Cyllid, fel y nodwyd yn ein hymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid blaenorol, roeddem yn cytuno â barn y Pwyllgor Cyllid ar y pryd y bydd un cyfrwng deddfwriaethol sy'n ymwneud â threthi a chynlluniau gwario'n codi nifer o gymhlethdodau ac y byddai angen rhoi ystyriaeth ofalus iawn iddo. Mae'r weithdrefn gyllidebol ym mron pob deddfwrfa yn ddull penodol ar gyfer cymeradwyo terfynau gwario cyffredinol ac mae'n tueddu i fod yn weithdrefn ddeddfwriaethol wedi'i symleiddio sy'n cyfyngu ar welliannau anllywodraethol. Mae ganddi hefyd amserlen wedi'i chyflymu i sicrhau cymeradwyaeth amserol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.

Gallai cyflwyno elfennau eraill, cymhleth iawn o bosibl - megis newidiadau i drethi - fel rhan o'r un cyfrwng deddfwriaethol naill ai beryglu siawns y cynlluniau gwario o gael eu

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cymeradwyo cyn dechrau’r flwyddyn ariannol, gan effeithio hefyd ar y gallu i gynnig sicrwydd ariannu i bartneriaid a rhanddeiliaid; neu fe allai, i’r gwrthwyneb, leihau’r amser ar gyfer craffu’n briodol ar newidiadau i drethi.

Felly, byddwn yn cynnig ein bod yn cadw materion sy’n ymwneud â gwelliannau i broses y gyllideb a gwella ein mecanweithiau ar gyfer newid deddfwriaeth treth ar wahân i’w gilydd.

Yn gywir



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government